

No.

## PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 18 Ebrill, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Is-Gadeirydd yn y Gadair); Cynghorwyr A. Asbrey, R.M. Birch, S. Campbell, S.J. Haines, N.P. Hodges, S.D. Perkes a R.R. Thomas

Yn cynrychioli Cyngorau Tref a Chymuned: S. Hodges (Cyngor Tref y Barri), G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), R. Cox (Eilydd) (Cyngor Tref Penarth), J. Radcliffe (Cyngor Cymuned Ewenny), H. Osbourne (Cyngor Cymuned Llancarfan), Dr. M. Misra (Eilydd) (Cyngor Cymuned Llandociau), J. Shaw (Cyngor Cymuned Llandŵ), S. Bonnar (Cyngor Cymuned Llanfair), M. Narusberg (Cyngor Cymuned Llanmaes), P. Summers (Penllyn Cyngor Cymuned), S.M. Toker (Eilydd) (Cyngor Cymuned Sain Tathan), T. Partridge (Cyngor Cymuned Sain Dunwyd), I. Perry (Cyngor Cymuned St. Nicholas a Tresimwn), N. Parry (Cyngor Cymuned Sili a Larnog) a C. Hawkins (Cyngor Cymuned Y Wig).

### 1019 CYHOEDDIAD -

Cyn dechrau busnes y Pwyllgor, darllenodd yr Is-gadeirydd y datganiadau canlynol:

- 1) "Hoffwn atgoffa pawb sydd yma y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd a chaiff y recordiad hwn ei archifo i'w wyllo yn y dyfodol".
- 2) "Rwy'n amau y bydd holl Aelodau'r Pwyllgor erbyn hyn wedi gweld yr adroddiad a gyhoeddwyd ar ddydd Mawrth 16 Ebrill gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar yr adolygiad o Fro Morgannwg. O ystyried yr amserlenni, mae'n amlwg nad yw wedi bod yn bosibl cyflwyno adroddiad yn y cyfarfod Pwyllgor hwn gan fod y papurau wedi cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu ymhell cyn cyhoeddi adroddiad y Comisiwn Ffiniau.

Gwn y bydd Cyngor y Fro yn adrodd y mater i gyfarfod Cyngor Llawn y Fro ar 29 Ebrill ac mae'r Prif Weithredwr yn fy sicrhau mai un o'r argymhellion fydd bod pob Clerc Cyngor Tref a Chymuned yn gweld yr adroddiad hwnnw.

Rwyf hefyd yn ymwybodol y bydd diddordeb sylweddol yn y mater felly yr hyn rwy'n ei gynnig yw ein bod yn ceisio cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor hwn cyn gynted â phosibl fel y gall yr holl Aelodau gael cyfle i'w ystyried a'i drafod.

Rwy'n ymwybodol y dylid cyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol erbyn chwe wythnos o ddydd Mawrth (cyhoeddi'r adroddiad) fan bellaf ac felly mae amser yn

No.

hanfodol, felly yr hyn y byddwn yn ei wneud yw annog unrhyw Gyngor Tref neu Gymuned sy'n dymuno gwneud sylwadau ychwanegol i wneud hynny yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, gan fod y mater bellach yn nwylo'r Gweinidog perthnasol – Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio. Gellir dod o hyd i fanylion yn Adroddiad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol neu drwy wefan Llywodraeth Cymru."

#### 1020 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr S.M. Hanks (Cadeirydd) W. Gilligan, J. Lynch-Wilson, and H.M. Payne and M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth), B. Morris (Cyngor Cymuned Tregolwyn), C. Hadley (Eilydd) (Cyngor Cymuned Tregolwyn), P. Carreyett (Cyngor Cymuned Llandociau) a A. Thomas (Cyngor Cymuned Llanddunwyd).

#### 1021 COFNODION –

CYTUNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr, 2024 fel cofnod cywir.

#### 1022 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

#### 1023 GWASANAETH HEDDLU DE CYMRU –

Rhoddodd yr Arolygydd Childs wybod i'r Pwyllgor am y mentrau cymunedol a'r materion plismona canlynol ar gyfer ardal Bro Morgannwg ers y diweddariad diwethaf a roddwyd i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2024 fel a ganlyn:

- Roedd nifer o unigolion wedi cael eu harestio mewn perthynas â: thorri gorchymyn ymddygiad troseddol ar gyfer cadw ceffylau, recriwtio pobl ifanc i fasnachu cyffuriau, meddiant canabis, troseddau lladrad stryd niferus gan arwain at weithredu gorchymyn ymddygiad troseddol, gyrru peryglus, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig, digwyddiadau troseddau cyllyll, bygythiad, lladrad a chyflenwi cyffuriau dosbarth A.
- O ran y fenter 'What-Three-Word' ar hyd arfordir Bro Morgannwg, roedd arwyddion bellach wedi'u rhoi ar waith a oedd wedi profi'n arbennig o ddefnyddiol wrth arwain gwasanaethau brys i union leoliadau unigolion mewn trallod.
- Roedd Heddlu De Cymru yn monitro ac yn casglu gwybodaeth yn ddyddiol mewn perthynas â phrotest arfaethedig yng Ngwersyll y Dwyrain yn Sain Tathan ar 27 Ebrill 2024 yn dilyn postiad cyfryngau cymdeithasol gwreiddiol gan Patriotic Wales, sefydliad o blaid y lluoedd arfog, a oedd wedi cael ei ddileu ers hynny ond a enillodd lwyddiant gyda grwpiau asgell dde eithafol.

- Roedd protestiadau cymharol heddychlon hefyd wedi digwydd yn swyddfa'r AS Alun Cairns ac roedd swyddogion yn ymchwilio i graffiti a oedd wedi ymddangos yn ddiweddar y tu allan i'r swyddfa a oedd yn ymddangos yn gysylltiedig â'r gwrthdaro a'r dirwedd wleidyddol barhaus yn Gaza.

Yn dilyn cyflwyniad yr Arolygydd, dechreuodd y Cynghorydd Asbrey drafodaeth ar y mater drwy roi gwybod i'r Arolygydd fod Cyngor Cymuned Dinas Powys wedi cael anhawster cael mynediad at fideos camerâu teledu cylch cyfyng y maes chwarae ar Caerleon Road yn dilyn fandaliaeth reolaidd a gofynnodd a oedd unrhyw gamau ychwanegol y gallai'r Cyngor Cymuned eu cymryd i gael mynediad at y fideos i atal mwy o fandaliaeth. Dywedodd yr Arolygydd Childs y byddai'n cydgysylltu â thîm Plismona Cymdogaethau Penarth, sydd dan arweiniad yr Arolygydd Abbie Biddle, i ymchwilio ymhellach i'r mater ac ymateb yn uniongyrchol i'r Cyngor Cymuned.

Yna dywedodd cynrychiolwyr Cyngor Cymuned Sain Tathan a Chyngor Cymuned Llanfair fod diffyg presenoldeb swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned diweddar ac, er bod adroddiad ysgrifenedig byr wedi'i gyflwyno, nid oedd unrhyw swyddogion yn bresennol yn gorfforol fel y dymunwyd. Mewn ymateb, dywedodd yr Arolygydd Childs, o ystyried y nifer fawr o gyfarfodydd Cyngor Cymuned a oedd yn cael eu cynnal ledled Bro Morgannwg, na fyddai'n bosibl i'r swyddogion fynd i bob cyfarfod, fodd bynnag, gwerthfawrogwyd pan roddodd Cynghorau Cymuned wybod i'r Heddlu am eu cyfarfodydd a oedd ar ddod fel y gellid gwneud yr ymdrechion gorau i'r swyddogion fynd iddynt. Cynigiodd yr Arolygydd hefyd roi gwybod i swyddogion cymorth cymunedol perthnasol yr heddlu ar gyfer yr ardaloedd Cyngor Cymuned am y sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor.

Fel sylw atodol, ychwanegodd cynrychiolydd Cyngor Cymuned Llanfair wedyn, mewn perthynas â'r brotest a amlygwyd gan yr Arolygydd yn ardal Sain Tathan, fod cymuned Llanilltud Fawr wedi ymateb yn eithriadol o dda i brotestiadau yn y gorffennol yn ardal Llanilltud Fawr fel rhan o'r fenter gymunedol "caru Llanilltud" ac felly gallai recriwtio cefnogaeth y gymuned leol fod yn effeithiol iawn i wasgaru unrhyw brotestiadau digroeso. Cytunodd yr Arolygydd gydag awgrym y cynrychiolydd a dywedodd y byddai'r Heddlu'n ymgysylltu â chymuned Sain Tathan i sicrhau bod gan y gymuned leol lais ar y mater. Byddai'r Heddlu hefyd yn ymgysylltu ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth o fewn yr ysgolion lleol i gynnal sianeli cyfathrebu gyda'r gymuned leol.

Yna dywedodd cynrychiolydd Cyngor Cymuned Sain Nicolas gyda Thresimwn fod llawer o droseddau heb eu hadrodd yn ardal Sain Nicolas gyda Thresimwn ac felly gofynnodd beth oedd y canlyniadau pe na bai troseddau yn cael eu hadrodd. Dywedodd yr Arolygydd Childs nad oedd yn anghyffredin i aelodau o'r cyhoedd beidio ag adrodd troseddau lefel is gan fod unigolion yn teimlo nad oedd yn werth eu hadrodd. Fodd bynnag, anogodd yr Arolygydd holl drigolion Bro Morgannwg i ymuno â'r fenter De Cymru yn Gwrando a roddodd gyfle i aelodau o'r cyhoedd ddweud wrth Heddlu De Cymru am faterion yn eu cymuned leol os nad ydynt yn cael eu hadrodd yn ffurfiol. Byddai hyn yn helpu'r Heddlu i dynnu sylw at unrhyw batrymau yn yr ardal.

No.

Mewn ymateb, diolchodd cynrychiolydd Cyngor Cymuned Sain Nicolas gyda Thresimwn i'r Arolygydd am roi gwybod i'r Pwyllgor am y fenter De Cymru yn Gwrando ac ychwanegodd fod problemau wedi bod yn ardal ei Gyngor Cymuned gyda thwyll fasnachwyr yn ymwneud â bygythiadau a hefyd aflonyddwch sŵn oherwydd gweithio gyda'r hwyr yn y nos. Dywedodd yr Arolygydd Childs fod twyll fasnachu yn cael ei gymryd o ddifrif gan Heddlu De Cymru a bod yr Heddlu'n gweithio'n agos mewn partneriaeth â Safonau Masnach. Anogwyd aelodau o'r cyhoedd yn gryf i adrodd unrhyw achosion o dwyll fasnachu i'r Heddlu drwy ddefnyddio 101 neu De Cymru yn Gwrando, fodd bynnag, o ran bygythiadau mwy difrifol neu gorfforol dylent ddefnyddio 999. Parhaodd yr Heddlu i edrych am ffyrdd eraill o ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd, a'u datblygu.

Yna ailadroddodd y Cynghorydd Campbell bwynt a wnaed yn flaenorol nad oedd gan ardal y Rhws Gyngor Cymuned ac felly byddai'n ddiolchgar o dderbyn adroddiadau misol gan Heddlu De Cymru fel Cynghorau Cymuned eraill. Dywedodd yr Arolygydd fod cyfarfodydd gyda Chynghorwyr Cymuned y Rhws yn cael eu cynnal lle bo angen ond nad oedd adroddiadau ffurfiol yn cael eu rhoi a bod Tîm Plismona Llanilltud, y byddai'r Arolygydd yn cysylltu ag ef yn dilyn y cyfarfod, yn gweithio yn ardal y Rhws. Roedd yr Heddlu'n ymwybodol nad oedd gan yr ardal Gyngor Cymuned ond byddai'n parhau i weithio gydag Aelodau Etholedig yn yr ardal i gynnal sianeli cyfathrebu a hwyluso unrhyw waith cymunedol a oedd yn digwydd.

I gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygydd Childs am ei gyflwyniad cynhwysfawr ac awgrymodd fod gwybodaeth mewn perthynas â'r fenter De Cymru yn Gwrando'n cael ei dosbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgor drwy'r Swyddog Gwasanaethau Democratiaidd i helpu i hyrwyddo'r fenter ymhellach.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

CYTUNWYD - Y dylid diolch i'r Arolygydd Childs am ei amser a'i ddiweddariad llafar.

## 1024 GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU –

Rhoddodd Mr Treherne, Rheolwr Grŵp, wybod i'r Pwyllgor am y materion canlynol mewn perthynas ag ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg ers y diweddariad diwethaf i'r Pwyllgor (drwy e-bost ar ôl cyfarfod mis Ionawr 2024) fel a ganlyn:

- Bu gostyngiad o 37%, 239 – 149 (-90) yng nghyfanswm y tanau yn ardal Bro Morgannwg ar gyfer yr un chwarter, mis Ionawr i fis Ebrill, o gymharu â 2023.
- O'r gostyngiad o 37%, roedd tanau damweiniol yn cyfrif am 44% o'r holl danau yr aeth y Gwasanaeth iddynt ac roedd 56% yn fwriadol.
- Drwy broffiliau mapio data, roedd data mewn perthynas â demograffeg achosion fel a ganlyn:
  - Ymatebwyd i 13 o danau bwriadol yn ardal y Barri gyda 4 o'r rheiny yn ymwneud â thanau cerbydau.

No.

- Roedd 20 o danau damweiniol wedi digwydd yn ardal y Barri ac roedd 9 o'r rheiny yn gysylltiedig â choginio mewn anheddau preswyl ac 1 mewn annedd amhreswyl, gydag achos anhysbys.
- Ymatebwyd i 11 o danau bwriadol yn ardal Cwm Ogwr, ac achoswyd 2 ohonynt gan sbwriel a 9 gan wastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon.
- Roedd 2 tân bwriadol yn Llanilltud Fawr, 1 yn ymwneud ag adeiledd awyr agored h.y. blwch post ac 1 oherwydd gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon.
- Roedd 7 tân mewn anheddau yn Llanilltud Fawr.
- Roedd 4 tân bwriadol yn ardal Penarth, 1 tân cerbyd, 2 sbwriel ac 1 glaswellt.
- Roedd 5 tân damweiniol yn ardal Penarth.
- Roedd 3 tân bwriadol yn y Bont-faen, i gyd yn ymwneud â thanau glaswellt.
- Roedd 4 tân damweiniol yn ardal y Bont-faen.
- Roedd nifer y dychryniadau di-sail ar draws ardal Bro Morgannwg gyfan wedi cynyddu ar gyfer y chwarter o 410 yn 2023 i 439 yn 2024.
- Roedd criwiau tân yn cael eu hannog i roi gwybod am achosion o dipio anghyfreithlon cyn gynted ag y nodwyd gwastraff, drwy ap a nododd gyfesurynnau lleoliad a ffotograffau, a oedd yn rhoi gwybod yn awtomatig am achosion o dipio anghyfreithlon i'r Awdurdod Lleol i'w symud. Y cyfle cyfyngedig hwn i unigolion roi gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon ar dân, er mwyn osgoi erlyniad, a oedd yn arwain at gynnydd mewn tanau gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon ar gyfer y gwasanaeth.
- Oherwydd tywydd gwael ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn, roedd y gwasanaeth wedi gweld llai o danau glaswellt ond roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i baratoi ar gyfer cynnydd sydyn mewn tanau glaswellt yn ystod cyfnod hanner tymor academaidd mis Mai.
- Roedd y gwasanaeth wedi bod yn rhan o 4 achubiad dŵr yn y chwarter a oedd yr un fath â 2023 ond roedd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch yn y dŵr ar ôl profi mwy o farwolaethau dŵr yn ystod y 12 mis diwethaf na marwolaethau tân.

Yn dilyn cyflwyniad y Rheolwr Grŵp, diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei gyflwyniad cynhwysfawr gan nodi, gyda diddordeb, y meysydd gwaith amrywiol a gefnogodd y Gwasanaeth Tân ac nad taclo tanau yn unig yr oedd y Gwasanaeth yn ei wneud.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

CYTUNWYD - Y dylid diolch i'r Rheolwr Grŵp Treherne am ei amser a'i ddiweddariad llafar.

## 1025 DARPARIAETH CLUDIANT LLEOL (CAIS AM YSTYRIAETH) -

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Trafnidiaeth yr adroddiad ymateb, a oedd â'r diben o roi trosolwg o agweddau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol ar wasanaethau bysus lleol ym Mro Morgannwg yn dilyn cais am ystyriaeth gan Gyngor Tref Penarth.

No.

Oherwydd sefyllfa ansicr y rhwydwaith bysus a'r cyllid, argymhellwyd y dylid llunio adroddiad ar sefyllfa'r rhwydwaith bysus yn ardal Bro Morgannwg yn ei chyfanrwydd a allai fod yn rhan o drafodaeth bellach ynghylch trafndiaeth gyhoeddus.

Drwy gyfres o sleidiau PowerPoint ategol, rhoddodd y Swyddog wybod i'r Pwyllgor am yr agweddau canlynol:

- agweddau yn y gorffennol fel dadreoleiddio gwasanaethau bysus dan Ddeddf Trafnidiaeth 1985;
- rôl y Cyngor o ran cefnogi a monitro'r rhwydwaith masnachol cyffredinol;
- crynodeb o'r gwasanaethau presennol a oedd yn cael eu darparu a'r ymarfer tendro rhanbarthol diweddar dan 'Gronfa Rhwydwaith Bysus' Llywodraeth Cymru, a gwybodaeth am ddatblygiadau a chynlluniau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Roedd yr un wybodaeth hefyd wedi'i chyflwyno i Bwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd Bro Morgannwg gyda manylion cynhwysfawr wedi'u nodi ym mhapurau'r Pwyllgor.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, gwahoddodd y Cadeirydd ddirprwy gynrychiolydd Cyngor Tref Penarth i siarad gerbron y Pwyllgor yn y lle cyntaf. Dechreuodd y cynrychiolydd drwy roi gwybod, er bod Cyngor Tref Penarth wedi cyflwyno'r Cais am Ystyriaeth, fod y Cyngor Tref yn ymwybodol iawn bod y newid i wasanaethau bysus yn effeithio ar ardal Bro Morgannwg yn ei chyfanrwydd ac yn ymwybodol iawn o'r hinsawdd economaidd bresennol yr oedd Cyngor Bro Morgannwg yn ymateb iddo.

Wedi dweud hynny, roedd Cyngor Tref Penarth o'r farn bod angen defnyddio arian yn ddoeth yn dilyn ymgynghoriad cymunedol ac ychwanegodd fod Cyngor Tref Penarth wedi ysgrifennu at Reolwr Gyfarwyddwr Bws Caerdydd ond nad oedd wedi derbyn ymateb eto. Roedd galw am gydlynw a sefydlogrwydd ychwanegol ar gyfer gwasanaethau bysus wrth symud ymlaen a oedd yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn y Ddeddf Cydraddoldeb yr oedd yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol lynu wrthynt.

Yna gofynnodd y cynrychiolydd am arddangos capsiwn o daflen Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r cymal dyletswydd economaidd a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau nad oedd yr unigolion hynny a oedd yn llai cefnog dan anfantais o gymharu ag eraill. Daeth y pwynt am y Ddeddf Cydraddoldeb mewn dwy ran, yn gyntaf oll roedd gofyn i sefydliadau fel Cyngor Bro Morgannwg gynnal asesiad o effaith ar gyfer gwneud neu ganiatáu newidiadau i wasanaethau ac yn ail, bodloni'r cymal o'r enw y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Dangosodd y capsiwn yr union sefyllfa yr oedd ardal Bro Morgannwg yn ei hwynebu pan gollodd lwybr gwasanaeth bws Rhif 7 a'r mwyafrif o wasanaethau bysus i Ysbyty Llandochau ac ardaloedd siopa Caerdydd. Roedd anawsterau hefyd o ran unigolion yn teithio i ac o Ysbyty'r Barri a phe bai mwy o ymgynghori cymunedol, gallai effaith y newidiadau diweddar fod wedi cael ei gweld a'u trin yn wahanol.

No.

Yn y gorffennol roedd gwasanaeth bws am ddim o Fae Caerdydd i Ysbyty Llandochau a oedd yn cael ei ariannu gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol, ond roedd y gwasanaeth hwnnw bellach wedi dod i ben ac fe'i sefydlwyd yn wreiddiol i gefnogi problemau parcio yn Ysbyty Llandochau. Dylid adfer y gwasanaeth drwy Benarth gyda'r gost yn cael ei rhannu a fyddai wedyn yn dod yn fforddiadwy i unigolion ei ddefnyddio ar sail hanner awr. Byddai aros chwe mis i ddatrys y gwasanaeth penodol hwnnw'n gwneud llawer o niwed a byddai unigolion yn dechrau newid eu harferion gyda hynny'n anodd ei newid yn ôl wedyn. Hefyd byddai cwmnïau bysus yn colli llawer o refeniw yn y dyfodol a fyddai wedyn yn arwain at alw uwch am gyllid gan Gyngor Bro Morgannwg.

I gloi, cynigiodd y cynrychiolydd drefnu cyfarfodydd cyhoeddus mewn gwahanol leoliadau ar draws ardal Bro Morgannwg er mwyn i drigolion, cwmnïau bysus, y Bwrdd Iechyd a Chyngor Bro Morgannwg ddod at ei gilydd i gael trafodaeth gyfeillgar am y problemau presennol o ran gwasanaethau bysus.

Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Trafnidiaeth y cytunwyd yn flaenorol ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru y byddai Cynghorau'n tendro gwasanaethau bysus fel yr oedd yn digwydd yn wreiddiol a bod llwybr gwasanaeth 7, fel y crybwyllwyd gan gynrychiolydd Cyngor Tref Penarth, wedi'i dendro gan Awdurdod Cyngor Caerdydd. Yn anffodus, ni pharhaodd Awdurdod Caerdydd i dendro'r gwasanaeth ac felly roedd Cyngor Bro Morgannwg ar hyn o bryd mewn trafodaethau gyda Chyngor Caerdydd yn dilyn trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd a Chwmni Bws Caerdydd i geisio ailgyflwyno gwasanaeth 7. Trefnwyd cyfarfod yn y dyfodol agos i edrych ar sut y gellid adfer y gwasanaeth a hefyd pa mor gyflym y gellid rhoi'r gwasanaeth ar waith eto.

Yna aeth y Swyddog i'r afael â'r mater o ymgynghori ar wasanaethau bysus a dywedodd fod newidiadau, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch ariannu'r gwasanaethau, wedi digwydd yn gyflym iawn ac yn aml ar sail munud olaf. Felly, ni fu digon o amser i geisio trefnu ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr. Yn y pen draw, y nod terfynol drwy gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru fyddai'r model masnachfreinio a byddai angen ymgynghoriad ar yr adeg honno. Fodd bynnag, roedd adran drafnidiaeth Bro Morgannwg yn agored i ymgynghori ychwanegol ar ben yr adborth a gofnodwyd eisoes drwy arolwg barn gyhoeddus y Fro.

Yna gofynnodd cynrychiolydd Cyngor Cymuned Sain Nicolas gyda Thresimwn pa rôl y gallai'r Cynghorau Tref a Chymuned ei chwarae i gynyddu'r defnydd o fysus ac i sicrhau bod Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu hystyried yn bartneriaid ac nid yn unig yn cael eu hysbysu ar ddiwedd proses benderfynu. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog fod Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu hystyried yn rhanddeiliaid ar y mater ac y byddent yn cael eu cynnwys mewn ymgynghori yn y dyfodol. Po gyflymaf y llwyddodd Bro Morgannwg i weithredu'r fasnachfaint yn y dyfodol, y mwyaf o reolaeth fyddai ganddi dros y gwasanaethau, ac roedd Cyngor Bro Morgannwg wrthi'n ystyried lle y byddai diwygiad Llywodraeth Cymru yn mynd â gwaith yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Campbell ynghylch pwy a oedd bellach yn gyfrifol am y gwasanaethau bysus, dywedodd y Swyddog mai tîm

No.

trafnidiaeth Bro Morgannwg a oedd bellach yn atebol gan fod y rhan fwyaf o wasanaethau ym Mro Morgannwg wedi'u contractio'n llawn.

Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan y cynrychiolydd o Gyngor Cymuned Llandŵ, mewn perthynas ag unrhyw effeithiau ar wasanaeth bws 321, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod gwasanaeth 321 yr un fath a bod disgwyl iddo redeg fel yr oedd o'r blaen.

Gan fynd i'r afael â sylwadau a godwyd gan gynrychiolydd Cyngor Tref Penarth mewn perthynas ag ymgynghori, gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddog am fwy o wybodaeth mewn perthynas â'r camau nesaf ar gyfer masnachfreinio. Dywedodd y Swyddog mai'r amserlen a roddir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd oedd i fasnachfreinio ddiwydd erbyn 2026-28 ond y mater mwy uniongyrchol i Gyngor Bro Morgannwg ar hyn o bryd oedd canfod sut y byddai gwasanaethau'n cael eu hariannu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Felly, nid oedd Cyngor Bro Morgannwg yn gallu cadarnhau ar hyn o bryd sut y byddai gwasanaethau'n cael eu hariannu ar ôl mis Mawrth 2025.

Yna dywedodd y Cynghorydd Campbell ei bod yn bresennol yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd, pan ystyriwyd yr adroddiad hefyd, ac y gofynnwyd i adroddiad gael ei ddychwelyd i'r Pwyllgor Craffu ymhen chwe mis ac awgrymodd y dylid gwneud yr un peth ar gyfer y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol. Eiliodd y Cadeirydd awgrym y Cynghorydd ac ychwanegodd y dylid hefyd gofyn i Brif Weithredwr Gwasanaethau Bws Caerdydd ddod i'r cyfarfod mewn chwe mis.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

CYTUNWYD -

- (1) Nodi'r adroddiad ymateb.
- (2) Bod adroddiad diweddar pellach ar wasanaethau bysiau ym Mro Morgannwg yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen chwe mis, gyda gwahoddiad i Brif Weithredwr Gwasanaethau Bws Caerdydd fynychu'r un cyfarfod o'r Pwyllgor.

Rheswm dros y penderfyniad

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad ymateb ar agweddau gorffennol, presennol ac yn y dyfodol ar wasanaethau bws lleol ym Mro Morgannwg yn dilyn cais am ystyriaeth gan Gyngor Tref Penarth.
- (2) Darparu rhagor o wybodaeth a chyd-destun ar gyfer gwasanaethau bysiau sydd ar gael ym Mro Morgannwg ar y pryd.

1026 AIL-LUNIO: Y CAM NESAF O DRAWSNEWID (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2024 gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.



No.

Nododd adroddiad y Cabinet y cynigion ar gyfer cam nesaf rhaglen drawsnewid y Cyngor, Ail-lunio. Ail-lunio Gwasanaethau oedd y rhaglen newid trawsnewidiol a lansiwyd yn 2015 ac a oedd yn galluogi'r Cyngor i liniaru effaith cyni tra'n cyflawni arbedion ariannol sylweddol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr, o ystyried yr her ariannol sylweddol a oedd yn wynebu'r Cyngor yn y tymor canolig, ei bod bellach yn bryd rhoi ffocws newydd i Ail-lunio a nododd yr adroddiad fframwaith a syniadau cynnar ar gyfer datblygu newid trawsnewidiol dan bum thema sef Model Gweithredu Targed, Trawsnewid Gwasanaethau, Cryfhau Cymunedau, Arloesi Digidol a Gwydnwch Economaidd.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor fel rhan o broses o ymgysylltu ag amryw o Bwyllgorau, Fforymau a Rhwydweithiau'r Cyngor ac i ofyn am farn ystod eang o randdeiliaid ar ddatblygiad y Rhaglen.

Roedd y Cabinet wedi ystyried a chymeradwyo'n ddiweddar waith a oedd yn cael ei wneud i gryfhau cymunedau Bro Morgannwg mewn ymateb i gyfres o adroddiadau Archwilio Cymru cenedlaethol ar drechu tlodi ac adroddiad lleol ar sut yr oedd y Cyngor yn gweithio gyda'r trydydd sector. Roedd y Cyngor wedi ymgysylltu â Cwmpas i weithio ar y cyd ar raglen o ymgysylltu â swyddogion y Cyngor, Aelodau Etholedig, y Trydydd Sector, Cynghorau Tref a Chymuned a mentrau cymdeithasol i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiadau ond hefyd i gynorthwyo i ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd Bro Morgannwg ar gyfer 2025-2030, Siarter Cyngor Tref a Chymuned ddiwygiedig a Chompack Sector Gwirfoddol newydd.

Yna manteisiodd y Cyfarwyddwr ar y cyfle i ddiolch i'r Cynghorau Tref a Chymuned hynny a oedd wedi ymgysylltu â gwaith Cwmpas hyd yma a dywedodd y byddai'r gwaith nid yn unig yn helpu gyda gwaith Cyngor Bro Morgannwg i drechu tlodi a'r argyfwng costau byw, ond y byddai hefyd yn llywio gwaith ar draws holl heriau hanfodol y Cyngor fel y nodir yn ei Gynllun Cyflawni Blynnyddol. Byddai adroddiad ar y gwaith a wnaed ar y thema Cryfhau Cymunedau gyda Cwmpas yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Yn dilyn cyflwyniad y Cyfarwyddwr, dechreuodd y Cynghorydd Campbell drafod y mater drwy nodi bod trosglwyddiadau cymunedol wedi digwydd o'r blaen mewn perthynas â chlybiau bowlio a llyfrgelloedd a gofynnodd a fyddai trosglwyddiadau cymunedol yn y dyfodol yn dilyn enghraifft debyg wrth symud ymlaen. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r Cyngor yn ceisio gwneud mwy ynghylch trosglwyddiadau cymunedol o ran cyfleusterau chwaraeon untro, yn ogystal â gweithredu'r mathau hynny o asedau drwy grwpiau cymunedol a oedd â diddordeb unigol yn yr ased. Byddai'r Cyngor hefyd yn edrych ar ddyblygu trosglwyddiadau asedau o ran cyfleusterau chwaraeon untro eraill, er enghraifft cyfleusterau chwarae, yn ogystal â chynnwys y potensial o ran canolfannau cymunedol ac asedau lleol eraill. Roedd cyfleusterau y byddai Bro Morgannwg, fel Awdurdod Lleol, am eu gweld yn parhau i gael eu gweithredu ond na fyddai mewn sefyllfa i wneud hynny'n uniongyrchol ac felly byddai'n ceisio gweithio gyda sefydliadau llai eraill i wneud hynny, gyda'r Cyngor yn hwylusydd ac yn alluogwr.

No.

Yna dywedodd cynrychiolydd Cyngor Tref y Barri fod y Cyngor Tref wedi cael profiad blaenorol o drosglwyddo asedau cymunedol, yn ogystal â phrosiectau Gwasanaethau Ail-lunio eraill, a nododd rwystredigaethau'r Cyngor Tref ynghylch faint o amser yr oedd wedi'i gymryd i ddatrys gwaith papur ac agweddau cyfreithiol mewn perthynas â throsglwyddo asedau. Felly, gofynnodd y cynrychiolydd, pe bai Cyngorau Cymuned yn ymgymryd â mwy o wasanaethau Bro Morgannwg, a fyddai'r broses yn cael ei symleiddio i gefnogi'r broses drosglwyddo? Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr fod sylwadau'r cynrychiolydd yn gyson â'r hyn yr oedd Cyngor y Fro wedi'i glywed gan gydweithwyr Cyngor Tref a Chymuned eraill o ran faint o amser yr oedd wedi'i gymryd i ddilyn y broses trosglwyddo asedau cymunedol. Roedd y mater yn rhywbeth yr oedd y Cyngorydd Wilson, fel deiliad portffolio'r Cabinet, wedi gofyn i'r swyddogion ymchwilio iddo i sicrhau cydbwysedd rhwng y fargen a oedd yn digwydd a gweithrediad parhaus y gwasanaeth. Roedd yn rhaid i'r broses fod yn rhesymol ac yn hyfyw ond ni ddylid treulio gormod o amser ar y fargen fel y byddid yn amharu ar y gwaith o gyflawni ymrwymadau'r Cyngor.

Yna dywedodd cynrychiolydd Cyngor Cymuned Sain Nicolas gyda Thresimwn fod ei Gyngor Cymuned yn un o'r Cyngorau a oedd wedi ceisio ymgysylltu'n frwdfrydig â throsglwyddo asedau cymunedol yn flaenorol yn ôl yn 2018/19, ond cafodd ei siomi gan y diffyg cyfle a oedd gan y Cyngor Cymuned i wneud cais i dorri ei laswellt ei hun ar lawnt y pentref a hefyd bod gwahanol rannau o sefydliad Bro Morgannwg yn symud ar wahanol gyflymderau. Felly, gofynnodd y cynrychiolydd a fyddai swyddog canolog a allai symud ymdrechion ymlaen a sicrhau y gallai Cyngorau Tref a Chymuned gymryd mwy o ran a darparu mwy o wasanaethau i annog gwelliant lleol. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr, pan drafodwyd trosglwyddo asedau cymunedol cyn pandemig cenedlaethol Covid 19, fod trafodaethau'n cael eu cynnal ar sail yr Awdurdod Lleol yn trosglwyddo gwasanaethau i'r Cyngorau Tref a Chymuned a gweithio ar berthynas gyfartal lle'r oedd Cyngorau Tref a Chymuned yn cysylltu â'r Awdurdod Lleol gydag enghreifftiau o asedau yr oeddent yn dymuno ymgymryd â nhw. Fodd bynnag, teg oedd dweud bod y sefyllfa ariannol yr oedd Cyngor Bro Morgannwg bellach yn ei hwynebu wedi newid yn sylweddol ers 2018/19 ac felly roedd yn amserol cael sgysiau ynghylch y penderfyniadau anodd y byddai'n anochel yn rhaid i'r Cyngor eu gwneud ac felly roedd mewn gwell sefyllfa i siarad â Chyngorau Tref a Chymuned am lefel y gwasanaethau yr oedd Cyngor Bro Morgannwg mewn sefyllfa i'w darparu. Byddai hyn yn rhoi syniad gwell a chryfach i Gyngorau Tref a Chymuned o'r math o asedau y gallai'r Cyngor Tref a Chymuned ddymuno ystyried cydweithio arnynt neu ychwanegu atynt mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg.

Wrth symud ymlaen, roedd y Cyfarwyddwr yn gweithio'n agos iawn gyda Thîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor i asesu sut y byddai'r Tîm Arweinyddiaeth gyda'i gilydd yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'r fframwaith ail-lunio ac yn parhau i ymgysylltu â Chyngorau Tref a Chymuned i ddeall y ffordd orau o fynd i'r afael â thrafodaethau yn y dyfodol.

I gloi, gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor, sef yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau, a allai cynrychiolydd Cyngor Cymuned Sain Nicolas

No.

gyda Thresimwn ei e-bostio ynghylch contractau torri glaswellt yn ardal Sain Nicolas gyda Thresimwn fel y gellir ymchwilio i'r mater ymhellach.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

CYTUNWYD -

- (1) T H A T nodi cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad atodol.
- (2) T H A T bod sylwadau'r Pwyllgor, fel y'u nodwyd yng nghofnod y cyfarfod, yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w hystyried.

Rheswm dros y penderfyniad

- (1) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad atodol ar gam nesaf rhaglen drawsnewid y Cyngor, Ail-lunio.
- (2) Gyda golwg ar y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod.